# WELI DI FI?

Diolch am gymryd rhan yn ein cynllun "Weli di fi?" a fydd, gobeithio, yn gwella mynediad at amrywiaeth o fusnesau a gweithgareddau i bobl awtistig.

Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o roi Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig i Gymru ar waith. Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a gynhelir o fewn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Gwladol Cymru sy'n gweithredu'r Strategaeth hon.

- Mae awtistiaeth yn effeithio ar 1 mewn 100 o bobl, ac mae'r ffordd yr effeithir arnynt yn amrywio o un person i'r llall.
- Un o'r materion a adroddir amlaf sy'n effeithio ar bobl awtistig yw mynediad at gweithgareddau a gwasanaethau bob dydd yn eu cymunedau lleol.
- Trwy gynyddu dealltwriaeth, a gwneud newidiadau bychain, byddwch yn helpu i leihau'r rhwystrau mae pobl awtistig yn eu hwynebu.

'Anabledd cudd' yw awtistiaeth a thra bydd rhai pobl, o bosibl, ddim am i chi wybod eu bod yn awtistig; mae llawer yn dymuno i chi wybod. Wrth i unigolion roi gwybod i chi eu bod yn awtistig, y gobaith yw y gallwch wneud rhai newidiadau bychain a fydd yn gwneud pethau'n haws i bawb. Gan fod cymaint o bobl yn ei gweld hi'n anodd dweud wrthych eu bod yn awtistig, rydym wedi datblygu cynllun i'ch helpu **adnabod pobl awtistig**.

Mae ein cynllun "Weli di fi?" yn cynnig breichled, cerdyn neu delwedd sgrin i ddyfeisiau symudol ar gyfer pobl  awtistig fel y gallant ddweud wrthych yn dawel eu bod yn awtistig. Nid yw'r adnoddau hyn yn dweud fod yr unigolyn yn awtistig, ond yn hytrach byddant yn arddangos y logo unigryw canlynol:

Pan welwch y logo, cofiwch fod angen i chi addasu'r ffordd yr ydych yn rhyngweithio ag eraill. Mae yna awgrymiadau ar sut i wneud hyn.

Darllenwch y poster a sicrhewch ei fod ar gael i aelodau eraill o staff. Rydym hefyd wedi darparu sticer ffenestr sy'n dangos i bobl awtistig eich bod yn ymwybodol ac efo dealltwriaeth o awtistiaeth. Fe fyddem yn ddiolchgar iawn petaech yn gallu ei osod yn eich ffenestr.

Nid ydym yn gofyn i chi gynnig mynediad am ddim nac unrhyw fuddion eraill mewn perthynas â'r cynllun hwn.

Mae gennym dudalen we yn benodol ar gyfer y cynllun Cenedlaethol hwn a byddwn yn rhestru yr holl sefydliadau sy'n cymryd rhan ar y dudalen hon.

Am ragor o wybodaeth am y cynllun, neu i gael mynediad at ein cynlluniau tystysgrifau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth am ddim, ewch i:
**AutismWales.org/cy/rwyn-awtistig/adnoddau-i-chi/weli-di-fi/**

AwtistiaethCymru.org
AutismWales.org
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
CLILC • WLGA
GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales